



Polisi Diogelu Data

Mae'r polisi yma yn nodi sut mae Menter Ty'n Llan yn trin data personol ein haelodau, cyflogai, gweithwyr, cwsmeriaid, cleientiaid, cyflenwyr, gwirfoddolwyr a trydydd bartion

1. Egwyddorion diogelu data

Mae Menter Ty'n Llan wedi ymrwymo i brosesu data yn unol â'i gyfrifoldebau o dan y GDPR

Mae Erthygl 5 o'r GDPR yn mynnu bod data personol:

- a. wedi'i brosesu'n gyfreithlon, yn deg a mewn modd tryloyw;
- b. wedi'i gasglu at ddibenion penodol, eglur a dilyys yn unig;
- c. yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion;
- ch. yn gywir a, lle bo angen, yn cael ei ddiweddarau, ei gywiro neu ei ddileu;
- d. heb ei gadw mewn ffurf sy'n caniatáu adnabod deiliaid data yn hwy nag sy'n angenrheidiol at y dibenion y prosesir y data; gellir storio data personol am gyfnodau hirach i'r graddau y bydd y data personol yn cael ei brosesu at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol;
- dd. wedi'i brosesu mewn modd sy'n sicrhau ei ddiogelwch gan ddefnyddio mesurau technegol a threfniadol priodol i ddiogelu rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colli, dinistrio neu ddifrod damweiniol

2. Darpariaethau cyffredinol

- a. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl ddata personol a brosesir gan Menter Ty'n Llan
- b. Penodir Person Cyfrifol (Swyddog Diogelu Data) i fod yn gyfrifol dros sicrhau ein cydymffurfiaid â'r polisi hwn

3. Prosesu cyfreithlon, teg a thryloyw

- a. Er mwyn sicrhau bod ein prosesu data yn gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw, byddwn yn cadw Cofnod penodol o'n gweithgareddau prosesu a'n hysbysiadau preifatrwydd
- b. Adolygir y Cofnod o leiaf unwaith y flwyddyn
- c. Mae gan unigolion yr hawl i gael gweld eu data personol a byddwn yn ymateb yn amserol i bob cais i wneud hynny

4. Dibenion cyfreithlon

- a. Bydd yr holl ddata a brosesir gennym yn cael ei wneud ar un o'r seiliau cyfreithlon canlynol: cydsyniad, contract, rhwymedigaeth gyfreithiol, buddion hanfodol y deiliad, gorchwyl gyhoeddus neu fudd cyfreithlon
- b. Byddwn yn nodi'r sail gyfreithlon briodol ym mhob Rhybudd Preifatrwydd ac yn y Cofnod o'n gweithgareddau prosesu
- d. Pan ddibynnir ar gydsyniad fel sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data, cedwir tystiolaeth o'r cydsyniad gyda'r data personol
- ch. Pan ddefnyddir cydsyniad fel sail gyfreithlon mi fydd yr opsiwn i ddeiliad data fedru tynnu'n ôl ei ganiatâd yn amlwg a chlr a bydd y dirymiad yn cael ei gofnodi'n gywir yn ein systemau

5. Lleiafu data

- a. Byddwn yn sicrhau bod data personol yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig bob amser i'r hyn sy'n angenrheidiol o ran y dibenion pwrpasol

6. Cywirdeb

- a. Byddwn yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod pob data personol yn gywir

- b. Lle bo angen o ran y sail gyfreithlon, byddwn yn sicrhau bod data personol bob amser wedi'i ddiweddarau ac yn gyfredol

7. Archifo

- a. Er mwyn sicrhau na chedwir data personol yn hirach nag sy'n angenrheidiol, byddwn yn cynnal polisi archifo ar gyfer pob maes o brosesu data personol ac yn adolygu'r broses hon yn flynyddol
- b. Bydd y polisi archifo yn ystyried pa ddata y dylid ei gadw, am ba hyd, a pham

8. Diogelwch

- a. Byddwn yn sicrhau bod data personol yn cael ei storio'n ddiogel gan ddefnyddio meddalwedd gyfredol
- b. Bydd hawl i weld data personol yn gyfyngedig i bersonél sydd angen ei weld, a byddwn yn sicrhau prosesau priodol rhag rhannu gwybodaeth heb awdurdod
- c. Pan fydd data personol yn cael ei ddileu gwneir hynny yn ddiogel fel nad oes modd ei adfer
- ch. Byddwn yn sicrhau prosesau addas o ran copi wrth gefn ac adfer

9. Torri'r Rheolau

Os bydd rheolau diogelwch data yn cael eu torri, boed yn ddamweiniol neu fel arall, gan arwain at ddinistrio, colli, newid, datgelu neu rhannu data personol, byddwn yn asesu'r risg i hawliau a rhyddid yr unigolyn yn brydlon ac os yw'n briodol, byddwn yn cyflwyno adroddiad i'r ICO

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn

Swyddog Diogelu Data: Caryl Elin Lewis

Polisi wedi'i fabwysiadu ar 25 Mai 2021

Llofnod y Cadeirydd *C. E. Lewis* ..[CARYL ELIN LEWIS].....

Llofnod Aelod o'r Pwyllgor Rheoli *Carys Aaron* ...[Carys Aaron].....